# Pwyllgor Rhanbarth Gorllewin De Cymru

## Cofnodion (SWaWR (2)-01-06)

### Dyddiad: Dydd Gwener 17 Mawrth 2006
### Amser: 9.30am – 12.30pm
### Lleoliad: Neuadd Les Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Edwina Hart | Gwyr |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |

#### Yn Bresennol

| **Enw** | **Yn cynrychioli (os ydyw'n berthnasol)** |
|---|---|
| Alwyn J Thomas | Pennaeth, Ysgol Bryntirion |
| Fay Apsee | Myfyriwr, Ysgol Bryntirion |
| Richard Jones | Myfyriwr, Ysgol Bryntirion |
| Mark Jones | Pennaeth, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr |

| | |
|---|---|
| Louise McGibbon | Tiwtor Bagloriaeth Cymru, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr |
| Robert Evans | Pennaeth Cynorthwyol, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr |
| Laura Williams | Myfyriwr, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr |
| Pili Keen | Cydgysylltydd Bagloriaeth Cymru, Coleg Castell-nedd Port Talbot |
| Jane Morgan | Rheolwr Cynorthwyol campws Afan, Coleg Castell-nedd Port Talbot |
| Kristina Southcott | Myfyriwr, Coleg Castell-nedd Port Talbot |
| Richard Giannini | Myfyriwr, Coleg Castell-nedd Port Talbot |
| Darren Isaac | Myfyriwr, Coleg Castell-nedd Port Talbot |
| Elaine Edwards | UCAC |

### Gwasanaeth y Pwyllgor yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Sara Mansour | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

### Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |

### Eitem 1: Croeso a chyflwyniad.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau’r Pwyllgor, y cyflwynwyr a’r cyhoedd i’r cyfarfod.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### Eitem 2: Addysg ar gyfer disgyblion 16 – 19 oed, yn arbennig Bagloriaeth Cymru.

2.1 Rhoddodd Mr Alwyn Thomas gyflwyniad ar ran Ysgol Bryntirion ar Fagloriaeth Cymru. Gwnaeth y sylwadau canlynol:

- gall disgyblion barhau â'u hastudiaethau Safon Uwch ac astudio pynciau sydd o ddiddordeb iddynt, yn ogystal ag ennill sgiliau allweddol pwysig;
- mae iddi elfen graidd ac elfen o ddewis. Mae'r elfennau craidd yn cynnwys

  - sgiliau allweddol,
  - Cymru, Ewrop a'r Byd,
  - Addysg gysylltiedig â Gwaith
  - Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

- derbyniwyd Ysgol Bryntirion ymhlith y drydedd garfan o ganolfannau ym mis Mehefin 2004 ar ôl cyflwyno cais i CBAC a'r Cynulliad Cenedlaethol;
- bu cyfnod cynllunio'r flwyddyn yn hanfodol i'w llwyddiant;
- mae gweithgor o staff yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu cynnydd;
- lansiwyd Bagloriaeth Cymru'n swyddogol yn ysgol Bryntirion ym mis Ebrill 2005 a dechreuodd ym mis Medi:
- mae'r cymhwyster erbyn hyn yn cael ei gydnabod yn eang gan brifysgolion;
- mae galw am y cymhwyster ac mae prifysgolion yn chwilio am sgiliau allweddol sy'n cael eu darparu gan y Fagloriaeth;
- mae'n caniatáu i fyfyrwyr ennill credydau am nifer o wahanol weithgareddau nad yw astudiaethau Safon Uwch yn eu cynnig;
- bu'r myfyrwyr ar nifer o ymweliadau ac maent yn bwriadu ymweld â Thy'r Cyffredin a'r Senedd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru;
- cawsant hefyd sesiwn "Hawl i Holi" gyda Carwyn Jones fel siaradwr gwadd;
- mae'r gweithgareddau hyn wedi gwella sgiliau cyfathrebu a dadlau'r myfyrwyr ac hefyd wedi rhoi dirnadaeth o wleidyddiaeth iddynt.

2.2 Rhoddodd Mr Mark Jones, Mr Robert Jones, Ms Louise McGibbon a Miss Laura Williams gyflwyniad ar ran Coleg Pen-y-bont ar Ogwr ar Fagloriaeth Cymru. Gwnaeth Mr R. Jones y sylwadau canlynol:

- amlinellodd ffurf gyffredinol Bagloriaeth Cymru;
- yn y coleg, cymhwyster galwedigaethol ydyw yn unig;
- ymunodd Coleg Pen-y-bont ar Ogwr â'r cynllun peilot am ei fod yn gyfle i achredu gweithgaredd sy'n bodoli eisoes;
- fel rhan o'u gwaith cynllunio, ymwelwyd â cholegau ac ysgolion eraill a oedd eisoes wedi cyflwyno'r Fagloriaeth;
- mae 130 o fyfyrwyr wedi ymuno â'r cwrs Bagloriaeth Cymru eleni a gobeithir cynyddu hyn i 300 o fyfyrwyr y flwyddyn nesaf.

2.3 Gwnaeth Ms Louise McGibbon y sylwadau canlynol:

- mae gofynion Bagloriaeth Cymru wedi eu hymgorffori yn elfennau'r brif raglen astudio;
- maent wedi bodloni'r heriau a'u goresgyn;
- anogwyd darlithwyr unigol i ailedrych ar eu pynciau eu hunain ac ail-werthuso dulliau dysgu;
- roedd myfyrwyr yn ymroddedig i'r cwrs;
- yn ogystal â chael cymhwyster, roedd y myfyrwyr mewn sefyllfa well o ran datblygu llawer o'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer eu dyfodol.

2.4 Gwnaeth Miss Laura Williams y sylwadau canlynol:

- drwy gyfrwng Bagloriaeth Cymru bu'r myfyrwyr ar nifer o ymweliadau ac maent wedi trafod materion fel bod yn gaeth i gyffuriau, yfed a gyrru, dinasyddiaeth a gwaith cymunedol;
- cafodd y myfyrwyr hefyd sgwrs ar y Comisiwn Etholiadol;
- gwnaeth y myfyrwyr fwynhau'r cwrs yn fawr gan fagu hyder a gwella eu sgiliau cyfathrebu.

2.5 Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, gwnaeth y cyflwynwyr y sylwadau canlynol:

- ganlyniad i Fagloriaeth Cymru mae myfyrwyr wedi dysgu mwy am wleidyddiaeth a pherthynas Cymru â gwledydd eraill;
- mae wedi rhoi addysg gyffredinol ehangach i fyfyrwyr;
- nid yw Bagloriaeth Cymru yn peryglu cymwysterau eraill gan eu bod wedi hen ymsefydlu. Mae'r Fagloriaeth Ryngwladol yn wahanol gan ei bod yn cymryd lle astudiaethau Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol eraill;
- mae Bagloriaeth Cymru wedi rhoi dimensiwn ychwanegol cyffrous i astudiaethau myfyrwyr;
- mae'n cael ei gwerthuso gan ddwy brifysgol ac ystyrir barn y myfyrwyr;
- mae'r cymhwyster yn cael ei gydnabod gan brifysgolion yng Nghymru ac mae sefydliadau yn Lloegr yn dechrau dilyn yr un patrwm;
- mae'r Ysgol Feddygaeth yn croesawu tystiolaeth o ehangder profiad a sgiliau rhyngbersonol myfyrwyr llwyddiannus;
- mae'r Fagloriaeth yn sicrhau cydraddoldeb rhwng cymwysterau galwedigaethol ac academaidd;
- byddai o les dechrau astudio'n iau, yn 14 oed efallai, gan fod 16-18 oed braidd yn rhy hwyr;
- mae yna lwybr galwedigaethol ac mae tiwtoriaid bob amser yn edrych ar anghenion myfyrwyr ac a yw'r lefel yn addas. Mae'r cwricwlwm bob amser yn newid i gyfateb ag anghenion myfyrwyr.
- nid yw Bagloriaeth Cymru yn ymyrryd ag astudiaethau Safon Uwch.
- mae Ysgol Bryntirion yn cynnig 26 o bynciau Safon Uwch yn ogystal â GNVQ ac NVQ;
- mae Coleg Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig 22 o bynciau Safon Uwch;
- mae'r coleg hefyd yn cynnig cyrsiau Safon uwch min nos i fyfyrwyr ysgol mewn pynciau na all yr ysgol eu cynnig fel arall;
- mae disgyblion anabl yn integreiddio gymaint â phosibl;
- bydd colegau ac ysgolion yn dysgu o'r profiadau hyd yma a byddant yn parhau i asesu hynt y cymhwyster;

- byddai cwrs sylfaen yng nghyfnod allweddol 4 o gymorth i baratoi disgyblion ar gyfer y cwrs Bagloriaeth.
- nid oes angen gwella unrhyw beth ar hyn o bryd;
- dylid bob amser croesawu adborth gan y myfyrwyr a chynnal gwerthusiad er mwyn asesu eu cynnydd.

2.6 Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r cyhoedd o Abertawe, dywedodd y cyflwynwyr:

- Nid yw Laura Williams yn gwneud astudiaethau Safon Uwch;
- Mae Richard Jones yn astudio'r pynciau Safon Uwch canlynol: Mathemateg, Cerddoriaeth, Daearyddiaeth ac Astudiaethau Cyfrifiadur;
- Mae Fay Apsee yn astudio'r pynciau Safon Uwch canlynol, Bioleg, Cemeg, Daearyddiaeth a Chyllid.

2.7 Dywedodd Cynthia Thomas, o Bencoed nad yw ei gor-nai, sy'n anabl, yn derbyn digon o gefnogaeth gan ei ysgol a gofynnodd sut y gallai wella hyn.

2.8 Dywedodd Peter Black bod y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn cynnal adolygiad o anghenion addysgol ar hyn o bryd. Dywedodd Alun Cairns fod gan awdurdodau lleol ymrwymiad yn hyn o beth a chynghorodd Ms Thomas i drafod y mater ymhellach gydag un o Aelodau'r Cynulliad.

2.9 Rhoddodd Ms Jane Morgan, Ms Pili Keen, Mr Richard Giannini, Miss Kristina Southcott a Mr Darren Isaac gyflwyniad ar ran Coleg Castell-nedd Port Talbot ar Fagloriaeth Cymru. Gwnaeth Ms Jane Morgan y sylwadau canlynol:

- mae'r Coleg yn cynnig amrediad eang o gyrsiau a dyma yw prif ddarparwr addysg 16–19 oed y sir;
- cyflwynwyd Bagloriaeth Cymru ym mis Medi 2003 i 18 o fyfyrwyr;
- bu'r gyfradd lwyddo yn ardderchog.

2.10 Dywedodd Ms Pili Keen:

- mae myfyrwyr galwedigaethol a myfyrwyr academaidd yn cydweithio am y tro cyntaf ac maent yn frwdfrydig iawn ynghylch hyn;
- neilltuir amser ar ddydd Mercher ar gyfer gwaith y Fagloriaeth er mwyn osgoi gwrthdaro â mathau eraill o waith;
- mae'r coleg yn ei chynnig fel cwrs dwy flynedd. Mae rhai sefydliadau yn cyflawni'r cwrs mewn blwyddyn ond credir bod hyn yn rhy anodd.

2.11 Gwnaeth Mr Richard Giannini y sylwadau canlynol:

- mae Bagloriaeth Cymru yn dda yn yr ystyr ei bod yn cynnig sgiliau allweddol sy'n bwysig ar

gyfer prifysgolion ac mae’n sicrhau bod pobl mewn sefyllfa well ar gyfer y byd gwaith;

- mae’n dysgu am bynciau nad yw astudiaethau Safon Uwch yn eu cynnwys;
- mae neilltuo dwy awr ar gyfer y Fagloriaeth yn ei gwneud yn hawdd astudio’r Fagloriaeth ochr yn ochr ag astudiaethau Safon Uwch;
- mae’r cymhwyster yn arwain at 120 o bwyntiau UCAS er nad yw rhai prifysgolion yn derbyn hyn;
- nid oes arholiad, dim ond gwaith cwrs.

2.12 Eglurodd Ms Kristina Southcott yr elfennau y mae wedi eu hastudio fel rhan o’r cwrs, gan ei gwneud yn eglur bod myfyrwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau;

- gwnaeth gais i chwe phrifysgol ond dim ond tair a oedd yn derbyn cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

2.13 Gwnaeth Mr Darren Isaac y sylwadau canlynol:

- yn ystod ei gyfnod ym Mhrifysgol Abertawe, profodd y sgiliau a gafodd o’r Fagloriaeth i fod yn ddefnyddiol iawn;
- bu’r aseiniadau a’r cyflwyniadau y bu’n rhaid iddo’u gwneud yn ystod y Fagloriaeth o gymorth i gynyddu’i hyder ac mae wedi ennill sgiliau newydd a gwell.

2.14 Rhoddodd Elaine Edwards gyflwyniad ar ran UCAC. Gwnaeth y sylwadau canlynol;

- roedd yn cymeradwyo’r elfennau cadarnhaol a fynegwyd gan y cyflwynwyr eraill;
- mae strwythur cadarn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Fagloriaeth yn gweithio;
- mae paratoi yn hanfodol i’w wneud yn gymhwyster llwyddiannus;
- mae ysgolion a cholegau sy’n ymwneud â threialu’r Fagloriaeth yn derbyn arian penodol ar gyfer y costau ychwanegol, ond mae’n bosibl na fydd ysgolion a cholegau na fu yn ymwneud â’r cynllun peilot yn derbyn arian ychwanegol os caiff ei brif ffrydio;
- mae’r 120 o bwyntiau UCAS yn annheg gan mai dim ond marc llwyddo a methu a roddir, ac nid graddau;
- mae angen mwy o farchnata, yn arbennig o ran prifysgolion;
- dylid defnyddio’r iaith Gymraeg yn amlach; mae’n hanfodol ar gyfer datblygu Cymru.

2.15 Atebodd Richard Giannini gwestiwn gan Sarah Philips o Scope Cymru gan ddweud:

- nid yw’r Fagloriaeth Ryngwladol yn cael ei hastudio ochr yn ochr ag astudiaethau Safon uwch. Yn hytrach mae’n eu disodli;
- mae gan Fagloriaeth Cymru gwricwlwm ehangach ac mae’n ategu astudiaethau Safon Uwch.

2.16 Mewn ymateb i gwestiynau dywedodd Elaine Edwards:

- nod Bagloriaeth Cymru yw cael addysg ehangach a byddai’n ddefnyddiol i fyfyrwyr iau ymgymryd â’r Fagloriaeth;
- yr anawsterau o ran ymestyn Bagloriaeth Cymru i fyfyrwyr iau yw bod ganddynt amserlen lawnach;
- mae gwaith cwrs yn rhoi myfyrwyr cyfnod allweddol 4 o dan lawer o bwysau;
- mae UCAC yn edrych ar fuddiannau Aelodau felly nid ei waith yw hyrwyddo Bagloriaeth Cymru ond mae’n hyrwyddo beth bynnag y mae ei aelodau’n ei gefnogi;
- mae prifysgolion yn cwyno ynghylch diffyg sgiliau myfyrwyr pan fyddant yn cyrraedd y brifysgol, ond mae Bagloriaeth Cymru’n rhoi’r cryfderau angenrheidiol iddynt, felly mae’n hanfodol hyrwyddo’r cymhwyster hwn;
- mae Oxbridge a phrifysgolion hy^n eraill yn fwy tebygol o dderbyn Bagloriaeth Cymru na rhai o’r prifysgolion mwy diweddar;
- efallai nad yw mor hawdd i ysgolion mewn ardaloedd gwledig weithio mewn partneriaeth â cholegau, a chynnig amrediad mor eang o bynciau ag ysgolion trefol.

2.17 Mynegodd Sarah Phillips o Scope Cymru bryder ynghylch unigolyn penodol sy’n dioddef o barlys yr ymennydd, nad yw’n cael mynd i ysgol haf er bod Deddf Plant 2004 yn dweud bod dyletswydd arni i helpu.

2.18 Mewn ymateb gofynnodd y Cadeirydd i Ms Phillips gyflwyno ei phryderon i’r Clerc yn ysgrifenedig.

2.19 Dywedodd Gwenda Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal bod y Pwyllgor ar hyn y bryd yn cynnal adolygiad o’r gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy’n agored i niwed. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi’n fuan.

### Camau i’w cymryd:

2.20 Caiff cofnodion y cyfarfod eu hanfon at Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ac i Peter Black, Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

## Eitem 3: Cofnodion

3.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

4.1 Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 9 Mehefin. Awgrymwyd Ynni fel testun ond mae croeso i Aelodau awgrymu testunau eraill drwy’r Clerc.

4.2 Diolchodd yr Aelodau i Gadeirydd y Pwyllgor am ei gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Mynegodd y Pwyllgor hefyd werthfawrogiad i Ysgrifennydd y Neuadd Les.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mawrth 2006**